# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Cartref Gofal Wynne Crest**

**Wynne Crest**
**23-25**
**Ffordd Cadwgan**
**Bae Colwyn**
**LL29 9RE**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

31/05/2024

# Cartref Gofal Wynne Crest

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth Cartref Gofal<br>Gofal Heb Nyrsio i Oedolion |
| Darparwr Cofrestredig | Wynne Crest Limited |
| Lleoedd cofrestredig | 21 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy |
| Arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru | 22 Mehefin 2023 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru? | Mae'r gwasanaeth hwn yn gweithio tuag at ddarparu 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg ac mae'n gwneud cryn ymdrech i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg a diwylliant Cymru. |

## Crynodeb

Mae'r bobl yn cael gofal o ansawdd da. Mae'r staff gofal yn adnabod y bobl yn dda ac yn dilyn cofnodion o gynlluniau gofal, i sicrhau bod y bobl yn cael gofal yn unol â'u hanghenion gofal unigol. Mae'r cynlluniau personol yn fanwl, wedi'u personoli ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r bobl yn ymateb yn dda i'r staff, sy'n barchus ac yn dyner wrth ymdrin â nhw. Mae'r staff gofal yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan y tîm rheoli, sy'n darparu sesiynau goruchwylio a hyfforddiant rheolaidd a ffurfiol. Mae polisïau a gweithdrefnau cyfredol ar gael i'r staff, sy'n ategu'r hyfforddiant a'r gwaith y maent yn ymgymryd â nhw. Mae'r tîm rheoli yn defnyddio dull ymarferol ac yn trin y bobl a'r staff ag urddas. Mae'r amgylchedd yn gynnes, yn gartrefol ac mae gwaith cynnal a chadw yn mynd rhagddo.

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2024.***

## Llesiant

Mae gan y bobl reolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd. Mae gan y bobl eu harferion eu hunain. Mae'r staff gofal yn annog y bobl i fod mor annibynnol â phosibl. Gwelsom y staff gofal a'r tîm rheoli yn cyfathrebu â'r bobl am eu dewisiadau a'u penderfyniadau drwy gydol ein hymweliad. Caiff cyfarfodydd preswylwyr eu cynnal yn rheolaidd ac anogir y bobl i leisio eu barn. Caiff ymwelwyr, gan gynnwys teulu a gweithwyr proffesiynol eu croesawu i'r gwasanaeth, sy'n fawr ac yn lân.

Mae'r bobl mor iach ac egnïol ag y gallant fod. Gwelsom y staff gofal yn mynd at y bobl ac yn eu helpu drwy gydol ein hymweliad. Gwelsom y bobl yn bwyta gyda'i gilydd ac yn mwynhau'r prydau maethlon yr oeddent wedi'u dewis. Dywedodd y bobl y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn mwynhau amseroedd bwyd. Caiff iechyd a llesiant y bobl eu monitro, ac mae'r staff gofal yn ymateb i anghenion y bobl. Mae cyfathrebu rhwng y tîm rheoli, y staff gofal, y bobl a'r gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld yn hanfodol i sicrhau y caiff anghenion iechyd unigol eu diwallu. Gwelsom weithwyr iechyd proffesiynol yn ymweld ag unigolion a gwelsom fod y bobl wrth wraidd ymweliadau o'r fath ac apwyntiadau.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod mesurau ar waith i ddiogelu'r bobl rhag risg. Roedd sampl o gynlluniau personol a welsom yn cynnwys asesiadau risg wedi'u personoli a oedd yn fanwl. Darperir hyfforddiant ar ddiogelu i'r holl staff gofal a'r tîm rheoli. Mae'r tîm rheoli yn monitro hyfforddiant y staff ac ansawdd y gofal a ddarperir i sicrhau bod y staff gofal wedi cael digon o hyfforddiant i ymgymryd â'u rolau yn ddiogel. Caiff yr amgylchedd hefyd ei fonitro'n rheolaidd i sicrhau y caiff risgiau posibl eu lleihau.

## Gofal a Chymorth

Mae'r bobl yn cael gofal a chymorth o ansawdd da, sydd wedi'u cynllunio o gwmpas dymuniadau personol, dyheadau a chanlyniadau unrhyw risgiau ac anghenion arbenigol. Caiff y bobl eu cynnwys wrth gynllunio eu gofal. Mae sampl o gynlluniau personol a welsom yn gywir yn unol ag anghenion unigol, ac yn adlewyrchu dymuniadau unigol y bobl, eu credoau, dewisiadau a'u harferion. Gwelsom fod y cofnodion hyn n dangos bod gwybodaeth wedi cael ei chasglu cyn i'r bobl symud i mewn i'r gwasanaeth. Ychwanegir at y wybodaeth hon ac mae'n gynnwys gwybodaeth fanwl am unigolion. Caiff cynlluniau personol eu monitro a'u diweddaru'n rheolaidd neu pan fydd anghenion gofal yn newid.

Mae'r bobl yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt. Caiff cyngor ac arweiniad gan amrywiaeth o weithwyr proffesiynol eu cofnodi yn y wybodaeth am gynlluniau personol. Mae'r cofnodion yn dangos cyfathrebu clir rhwng y gweithwyr proffesiynol sy'n ymweld, y staff gofal a'r tîm rheoli, a chaiff y cofnodion eu haddasu yn unol ag unrhyw newidiadau i anghenion unigol. Mae'r staff gofal yn cyfeirio at y cofnodion hyn i sicrhau eu bod yn darparu'r gofal cywir ar yr adeg gywir. Gwelsom weithiwr proffesiynol sy'n ymweld yn gwasanaethu'r bobl yn ystod ein hymweliad. Roedd eu hymweliad mewn ymateb i gais gan y tîm rheoli. Dywedodd un person wrthym ei fod yn teimlo ei fod yn cael gofal da. Mae cyfathrebu a goruchwylio effeithiol ar gyfer anghenion gofal y bobl yn golygu bod y bobl yn cael gofal o ansawdd da.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod gweithdrefnau meddyginiaethau diogel ar waith. Mae'r staff gofal yn cael hyfforddiant a chaiff eu cymhwysedd i reoli meddyginiaeth ei brofi. Gwnaethom siarad â'r staff gofal sy'n rhoi meddyginiaeth a ddywedodd wrthym eu bod yn teimlo'n hyderus wrth roi meddyginiaeth. Gwnaethom adolygu sampl o Gofnodion Rhoi Meddyginiaeth a gwelsom eu bod yn cael eu cwblhau heb wallau. Gwelsom y polisi meddyginiaeth a oedd ar gael i'r staff. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a manylion am archebu a gwaredu meddyginiaeth. Gwelsom archwiliadau a gynhelir gan y rheolwr, sy'n dangos bod y broses ar gyfer meddyginiaethau yn cael ei goruchwylio'n rheolaidd.

## Yr Amgylchedd

Mae camau ar waith i leihau risgiau i'r bobl drwy'r amgylchedd. Mae'r fynedfa i'r gwasanaeth yn ddiogel. Mae'r amgylchedd yn lân ac yn gartrefol. Mae cynlluniau ar waith i osod lloriau newydd yn yr ardaloedd byw cymunedol. Mae angen lloriau newydd mewn ardaloedd eraill, gan gynnwys y neuaddau cymunedol. Mae'r rheolwr wedi nodi bod angen gosod rhai newydd cyn gynted ag y bo'n bosibl.  Mae ystafelloedd y bobl yn gartrefol ac wedi'u personoli. Dangosodd y bobl eu hystafelloedd i ni a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn hapus ac wedi setlo ynddynt. Mae ardal eistedd yn yr awyr agored, lle gall y bobl dreulio amser yn ystod y misoedd cynnes.

Gwnaethom edrych ar gofnodlyfr cynnal a chadw'r gwasanaeth; caiff llofnodion a dyddiadau eu cofnodi ar dasgau sydd wedi'u cwblhau. Dengys cofnodion y cynhelir gwiriadau diogelwch fel mater o drefn mewn perthynas â materion fel tymheredd dŵr, legionella, cyfarpar tân a diogelwch tân. Gwelsom fod cymhorthion symudedd yn cael eu monitro o fewn yr amserlenni gofynnol. Caiff dyfeisiau trydanol eu gwirio hefyd. Caiff eitemau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) eu storio'n ddiogel mewn cwpwrdd wedi'i gloi. Llwyddodd y cartref i gynnal sgôr o 5 gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, sef y sgôr uchaf posibl y gellir ei hennill.

## **Arweinyddiaeth** a Rheolaeth

Mae gan y darparwr drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith er mwyn sicrhau y caiff y gwasanaeth ei redeg yn ddidrafferth. Mae'r sampl o gofnodion a welsom yn dangos bod y gofal yn cael ei fonitro'n rheolaidd. Gwelsom sampl o archwiliadau gofal, ac mae'r rhain yn dangos bod y darparwr yn nodi meysydd parhaus i'w gwella. Mae'r Unigolyn Cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth yn rheolaidd ac yn goruchwylio ansawdd y gofal. Mae'n annog y bobl, teuluoedd sy'n ymweld â'r gwasanaeth a gweithwyr proffesiynol i roi adborth. Caiff adroddiadau eu llunio yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Mae'r rheolwr a'r Unigolyn Cyfrifol yn cyfathrebu'n effeithiol yn rheolaidd. Mae polisïau a gweithdrefnau'r gwasanaeth yn gyfredol ac ar gael i'r staff. Mae'r Datganiad o Ddiben hefyd yn gyfredol ac yn adlewyrchiad cywir o'r gwasanaeth a'r gofal a ddarperir.

Mae'r darparwr yn sicrhau bod niferoedd priodol o staff gofal. Dywedodd y staff gofal y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo bod digon o staff gofal ar gael iddynt allu darparu gofal o ansawdd da. Dywedwyd wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac yn cael hyfforddiant a sesiynau goruchwylio rheolaidd. Roedd y rotas staff ar gyfer y ddeufis diwethaf hefyd yn dangos bod digon o staff ar gael i ofalu am y bobl. Gwelsom dair ffeil staff gofal a ddangosodd fod y staff yn cael eu recriwtio'n ddiogel, eu cefnogi a'u hyfforddi. Gwelsom fod y staff gofal yn cael eu goruchwylio ac yn cael arfarniadau blynyddol yn unol â'r gofynion rheoliadol. Mae'r matrics hyfforddiant yn gyson â'r dystysgrif gofnodion hyfforddiant yn ffeiliau’r staff gofal. Mae'r darparwr yn cynnal gweithdrefnau disgyblu effeithiol lle y bo angen.

Mae goruchwyliaeth ariannol y gwasanaeth yn effeithiol. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd. Mae'n monitro'r amgylchedd, sydd mewn cyflwr da.
Mae nifer y preswylwyr sydd yn y gwasanaeth yn sefydlog. Gwelsom y cyflenwadau bwyd a gweld bod digon o stoc, a chaiff prydau a byrbrydau ffres ac amrywiol eu paratoi drwy gydol y dydd.

Mae'r darparwr yn cyfathrebu â chyrff rheoleiddio ac asiantaethau statudol, gan gynnwys yr Awdurdod Lleol, yn effeithiol ac yn eu hysbysu'n effeithiol yn ôl yr angen. Gwelsom yr hysbysiadau a anfonwyd at Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), sy'n gyson â'r cofnodion a ddelir gan AGC.

| Crynodeb o'r Achos o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd yr achos hwn o ddiffyg cydymffurfio yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Heb Gyflawni** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn ond ni lwyddwyd i'w chyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn a llwyddwyd i'w chyflawni. |

Rydym yn ymateb i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan gaiff canlyniadau gwael i bobl, a/neu risg i lesiant pobl eu nodi drwy gyhoeddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i ymdrin â hyn a gwneud gwelliannau. Os bydd darparwyr yn methu â chymryd camau gweithredu â blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, gallwn uwchgyfeirio'r mater at Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

Lle byddwn yn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na chaiff unrhyw risg uniongyrchol na sylweddol i'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth ei nodi, byddwn yn tynnu sylw atynt fel Meysydd i'w Gwella.

Byddwn yn disgwyl i'r darparwr gymryd camau i unioni'r achos a byddwn yn ei ystyried eto yn yr arolygiad nesaf. Lle bydd  y darparwr wedi methu â gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy gyhoeddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes i'w Wella/Meysydd i'w Gwella | | |
| --- | --- | --- |
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Dd/G | Ni nodwyd unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Dd/G |

**A oedd yr adroddiad hwn yn ddefnyddiol?**

Rydym am glywed eich barn a'ch profiadau o ddarllen ein hadroddiadau arolygu. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall a yw ein hadroddiadau yn rhoi gwybodaeth glir a gwerthfawr i chi.

I rannu eich barn ar ein hadroddiadau, dilynwch y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

- Arolwg adroddiadau arolygu

Os hoffech roi adborth cyffredinol ar wasanaeth, ewch i'n tudalen Arolygon adborth.

**Dyddiad Cyhoeddi** 09/08/2024